

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Egwyddorion y Ddeddf

- **Pobl** - sicrhau bod yr unigolyn yn y canol drwy roi llais cryfach iddo a rheolaeth dros y gwasanaethau mae'n eu derbyn
- **Llesiant** - helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain gan adeiladu ar amgylchiadau person, a'i allu, rhwydweithiau a chymunedau
- **Ymyrraeth Gynharach** - mwy o wasanaethau ataliol, er mwyn helpu pobl cyn i'w hanghenion ddod yn ddwys
- **Cydweithio** - gweithio'n gryf mewn partneriaeth rhwng yr holl bartion dan sylw

Hyrwyddo Llesiant

- Rhaid i bob therapydd galwedigaethol alluogi unigolion o bob oed i sicrhau eu llesiant eu hunain gan gynnwys:
 - Eu helpu i gyfranogi mewn galwedigaethau ystyrlon
 - Cynnal neu ehangu gwerthoedd a diddordebau, arferion a swyddogaethau, gallu i berfformio
 - Creu amgylchedd sy'n galluogi
 - Mae'n parhau i fod yn hanfodol canolbwyntio ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed
- Bydd gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael i bawb, a rhaid canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar i sicrhau bod gan yr unigolyn y rheolaeth fwyaf bosib dros ei fywyd o ddydd i ddydd.

Cydweithio

- Bydd ymarferwyr yn gweithio ar draws ffiniau proffesiynol i sicrhau'r canlyniadau gorau gyda'r bobl
- Bydd ymarferwyr yn gweithio gyda dinasyddion, eu teuluoedd, eu gofalwyr a'u cymunedau er mwyn sicrhau cynhwysiant a chyfranogaeth mewn galwedigaethau
- Bydd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, gan gynnwys maes tai, yn cydweithio i wella llesiant.

Asesu a pharatoi gofal

- Bydd gallu, gwerthoedd a chymhelliant yr unigolyn yn llywio'r gwaith o osod nodau
- Mae cyfranogiad y person yn hanfodol wrth benderfynu ar anghenion a chanlyniadau
- Dylai gofalwyr gael gwybod am eu hawl cyfartal i gael eu hasesu am gymorth

Cymhwysedd

- Bydd y penderfyniad ynghylch cymhwysedd wedi'i seilio ar drafodaeth gyda'r person ynghylch:
 - Beth mae'n dymuno neu angen ei gyflawni
 - Beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn
 - Pwy ddylai ei helpu i'w gyflawni
- Bydd rheolaeth a gallu'r unigolyn yn cael eu defnyddio i'r eithaf er mwyn goresgyn rhwystrau rhag llesiant

